CYMDEITHAS GWAITH MAES
RHIFYN 33
TACHWEDD 2006

Nos a Dydd

gan Meira Shakespear

Fuoch chi allan am dro yn y nos erioed?
Pryd? Ble?
Beth welsoch chi? Glywsoch chi rywbeth diddorol?
Naddo? Os felly, beth fyddech chi'n *disgwyl* ei weld neu ei glywed – ar wahân i'r lleuad a'r sêr?

Gyda lampau da a goleuadau ymhobman, dydy'r nos fawr o anhawster i ni heddiw, ond roedd pethau'n wahanol gan mlynedd a mwy yn ôl.
Os cewch chi gyfle i wersylla allan yng nghefn gwlad neu fynd am dro ymhell o'r dref, fe fyddwch chi'n dechrau gweld y fath wahaniaeth sydd rhwng nos go iawn a dydd. Dyna pam roedd pobl ers talwm yn arfer trefnu eu diwrnod neu daith er mwyn "cyrraedd adre cyn nos."

Beth ydych chi'n ei hoffi am olau dydd?
A beth am dywyllwch y nos?
Oes rhywbeth dydych chi ddim yn ei hoffi?

Gall pobl *ddewis* mynd allan yn ystod oriau tywyllwch neu gefn dydd golau, ond does gan lawer o greaduriaid fawr o ddewis – ***maen nhw wedi esblygu i hel bwyd ac i gymdeithasu yn y nos***
NEU yn ystod y dydd.

Pam hynny? Pa fantais sydd mewn byw yng ngolau'r haul neu dan gysgodion y nos?

GWAITH I CHI

Yn y tabl ar y dudalen nesaf, mae enwau ugain o greaduriaid gwahanol. Meddyliwch yn ofalus am bob un, yna dangoswch pa rai sydd i'w gweld yn y ***nos*** trwy roi llun ***lleuad*** yn y blwch gyferbyn â rheiny a llun ***haul*** wrth ochr y rhai sydd i'w gweld yn y ***dydd***.

Mae rhaid wrth dipyn o grafu pen gydag ambell un. Os ydych chi'n gweithio mewn grwpiau, yna gallwch drafod pa ateb i'w ddewis. Os na fedrwch chi benderfynu un ffordd neu'r llall, yna rhowch leuad **a** haul – bydd hynny'n gywir i rai.

Pam ddewisoch chi fel y gwnaethoch?
Mae angen medru dweud mwy na'ch bod chi eich hun wedi gweld un yn y dydd ac un arall yn y nos. Ceisiwch ddeall ***pam*** mae'r creadur yn ymddwyn fel y mae ac esbonio hynny i'ch grŵp neu ddosbarth.

ENW .....

Dosbarth ..... **Dyddiad** .....

	NOS	DYDD
Bele		
Boncath		
Cwningen		
Draenog		
Eos		
Gwennol		
Gwenynen		
Gwiwer		
Gwyfyn		
Iâr fach yr haf		
Llwynog		
Llyffant		
Llygoden		
Malwen		
Mochyn daear		
Neidr		
Troellwr		
Tylluan		
Ysgyfarnog		
Ystlum		